

**ADRODDIAD – REPORT**

---

*Adolygiad o Effeithiolrwydd Camau i Reoli Ffliw Moch*

Astudiaeth fer yn gwerthuso pa mor effeithiol y bu Prifysgol Bangor yn cyfathrebu gyda'i staff a sut yr effeithiodd fflw mocha r lefelau salwch staff.

---

**CHWEFROR 2010**



## 1. GWYBODAETH GEFNDIROL

Clefyd resbiradol ar foch yw fflw moch, nad yw, fel rheol, yn effeithio ar fodau dynol. Disgrifiwyd ef gyntaf yn y 1930au<sup>1</sup>.

Ar 27 Ebrill 2009, adroddwyd bod 900 o achosion o fflw A1H1 (a adwaenir fel fflw moch) ym Mecsico ac, ym Mehefin 2009, datganodd Sefydliad Iechyd y Byd rybudd pandemig<sup>2</sup> A1H1.

Yn Ngorffennaf 2009, sefydlodd Adran Iechyd y DU y 'Gwasanaeth Gwladol ar gyfer Pandemig Fflw'. Daeth hwn i ben ar 11 Chwefror 2010 oherwydd lefelau isel o heintiad<sup>3</sup>.

## 2. EFFEITHIOLRWYDD Y DULLIAU O REOLI'R HAINT YM MHRIFYSGOL BANGOR

I ganfod a fu'r dulliau a gyflwynwyd i reoli fflw A1H1 ym Mhrifysgol Bangor yn effeithiol, mae'r Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol wedi cynnal arolygon wrth gerdded o gwmpas, ynghyd ag archwiliad ar-lein ac ar bapur o'r camau a gymerwyd i leihau'r risg o haint fflw ac i reoli ei hymlediad.

Cymerodd 280 aelod staff, tua 15% o'r holl staff, ran yn yr arolwg ar-lein.

## 3. YR ADRODDIAD

Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar feysydd y gall y Brifysgol ddylanwadu arnynt, yn hytrach nag ar faterion cysylltiedig â brechu, diagnosis a thrin, sydd wedi cal sylw gan y GIG. Mae cwestiynau â chanolbwynt wedi ceisio mesur effeithiolrwydd:

- negeseuon iechyd y Brifysgol (Tabl 1);
- trefniadau hylendid (Tabl 2);
- polisiâu a ffynonellau cyngor (Tabl 3); ac,
- adborth cyffredinol gan y staff ynglŷn â'r gofal a gawsant (Tabl 4).

Buwyd yn monitro absenoldeb trwy salwch oherwydd annwyd a fflw yn ôl tystysgrifau hunan-dystio a phapurau meddyg a gyflwynwyd rhwng Mehefin 2009 ac Ionawr 2010, wrth ochr yn un misoedd y flwyddyn gynt (siart 1.)

### Canlyniadau'r Holiadur:

Tabl 1

C. Negeseuon Iechyd o fewn y Brifysgol

A fuoch yn gweld a darllen	✓	✗	Adborth cyffredinol Beth yr hoffech ei weld yn y dyfodol?
Posteri fflw moch?	84%	16%	Roedd y posteri wedi'u osod mewn manau strategol ac i'w gweld. Dylid newid y posteri negeseuon iechyd a'u hamrywio fel y byddant mor effeithiol â phosibl.
Negeseuon e-bost?	97%	3%	Roedd y negeseuon yn iawn, er y byddai cyfarwyddyd cliriach gyda negeseuon byrrach yn fwy effeithiol.
Taflen Prifysgol Bangor ar fflw moch?	66%	34%	Nid oedd angen y taflenni gwybodaeth. Roedd y taflenni, yn fras, yn dweud yr un peth â'r negeseuon a botsiwyd gan y llywodraeth i'n cartrefi.
Gwybodaeth Prifysgol Bangor am fflw moch, a'r diweddariadau ar y we?	61	39%	Rhwng Gorffennaf 2009 ac Ionawr 2010, bu 5,102 o ymweliadau â gwefan Prifysgol Bangor ar fflw moch

<sup>1</sup> [www.newscientist.com](http://www.newscientist.com)

<sup>2</sup> [www.who.int/pandemic](http://www.who.int/pandemic)

<sup>3</sup> [www.dh.gov.uk/swine](http://www.dh.gov.uk/swine) flu

Tabl 2

## C. Trefniadau'r Brifysgol ar Hylendid

I leihau'r risg o gael neu ledaenu'r firws fflw	✓	✗	Adborth cyffredinol Beth yr hoffech ei weld yn y dyfodol?
A oeddech yn gwybod fod gel dwylo wedi'i ddarparu?	93%	7%	Buasai'n gymorth pe bai wedi'i ddarparu'n gynharach ac, yn y dyfodol, a fyddai modd ei ddarparu mewn mwy o leoedd?
A fuoch yn defnyddio'r gel dwylo a ddarparwyd?	63%	37%	Roedd gwybodaeth i'w gweld yn glir yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r gel yn gywir. Yn y dyfodol, a fyddai modd eu hail-gyflenwi'n amlach?
A oedd yn well gennych sebon a dŵr yn hytrach na'r gel dwylo a ddarparwyd?	52%	48%	Roedd llawer o bobl yn defnyddio gel a sebon fel ei gilydd – yn ôl lle roeddent. Roedd llawer o bobl yn defnyddio sebon a dŵr ar ôl cael bod defnyddio'r gel yn gwneud i'w croen gosi. Mae angen ailgyflenwi sebon a gel dŵr yn amlach.
A fuoch yn defnyddio sychyddion i lanhau eich wynebau gwaith (yn cynnwys allweddellau a setiau llaw ffôn)?	25%	75%	Yn gyffredinol, nid oedd sychyddion ar gael i staff lanhau eu hwynebau gwaith eu hunain. Byddai croeso iddynt yn y dyfodol.

Tabl 3

## C. Polisiâu a ffynonellau cyngor y Brifysgol

To protect staff from flu	Yes	No	General feedback What would you like to see in the future?
I warchod staff rhag fflw	✓	✗	Adborth cyffredinol Beth yr hoffech ei weld yn y dyfodol?
A ddilynwyd cyngor i beidio â dod i'r gwaith os oedd ar rywun symptomau fflw?	80%	20%	Daeth rhai staff i mewn i'r waith â symptomau fflw a heintio eraill. Mae angen i reolwyr atebol warchod staff nad ydynt wedi'u heintio, wrth sicrhau bod y rhai sydd wedi'u heintio yn mynd adref.
Os oeddech adref yn sâl â'r fflw, a gawsoch fod polisi'r Brifysgol ar salwch yng nghyswllt rhoi gwybod am absenoldeb a defnyddio tystysgrifau hunan-dystio neu bapurau meddyg yn ddefnyddiol?	67%	33%	Cafodd rhai weithwyr anhawster i gael tystysgrif feddygol gan eu meddyg teulu am nad oedd y meddygfeydd yn barod i weld pobl â fflw.
A oeddech yn gwybod fod gan y Brifysgol drefn i ganiatáu absenoldeb i staff mewn argyfwng ofalu am berthynas?	35%	65%	Roedd llawer o bobl yn anwybodus ynglŷn â'r drefn absenoldeb mewn argyfwng ac yn gofyn a oedd hyn yn berthnasol i ofalu am bobol â fflw. Hoffai'r ymatebwyr gael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r drefn hon.
A oeddech yn gwybod am bolisi'r Brifysgol ar deithio tramor ar fusnes y Brifysgol?	39%	61%	Dywedodd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd nad oeddent yn teithio dramor ar fusnes y Brifysgol.

Tabl 4


C. Adborth cyffredinol gan staff ynglŷn â'r effaith a gafodd y camau a gymerwyd gan Brifysgol i ofalu amdanynt

I'n cynorthwyo i ddeall effeithiolrwydd y amau a gymerwyd	✓	✘	Adborth cyffredinol Beth yr hoffech ei weld yn y dyfodol??
A ydych yn fodlon ynglŷn â'r wybodaeth a'r cymorth a roddwyd gan Brifysgol Bangor adeg y pandemig o fflw?	96%	4%	Mae'r adborth yn cadarnhau bod y camau a gymerwyd gan y Brifysgol wedi'u rheoli'n dda, yn enwedig yn achos staff sydd wedi'u lleoli ym Mangor. Dywedodd lawer na fu'r heintiad mor ddifrifol ag yr oeddent wedi ofni. Ar gyfer y dyfodol, buasai modd gwneud mwy ar gyfer ein staff Prifysgol sydd wedi'u lleoli ar safleoedd cangen.

- Data cymharu absenoldeb salwch

Siart 1

Absenoldeb trwy salwch oherwydd annwyd a fflw rhwng Mehefin 2009 ac Ionawr 2010, wrth ochr yr un misoedd y flwyddyn gynt



**Nodi:** Roedd angen hunan-dystiad neu dystysgrif feddygol ar 271 o staff oherwydd annwyd neu fflw rhwng Mehefin 2009 a Ionawr 2010. Bu 267 o staff ar absenoldeb trwy salwch am yr un rhesymau yn ystod yr un misoedd y flwyddyn gynt.

#### 4. CASGLIAD

Mae canlyniadau'r arolwg hwn wedi canfod effeithiolrwydd y camau a gymerwyd o fewn rheolaeth Prifysgol Bangor.

Bu ffliw A1H1 (ffliw moch) yn llai difrifol na'r disgwyl yma ac yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Bu absenoldeb salwch oherwydd annwyd a ffliw yn ystod y cyfnod allweddol o wyth mis yn 2009/2010 yn debyg i'r hyn a fu yn yr un cyfnod mewn blynyddoedd diweddar.

Mae'r astudiaeth hefyd yn dangos bod strategaeth gyfathrebu a chefnogi'r Brifysgol wedi bod wrth fodd y rhan fwyaf, gyda 96% o'r atebwyr yn nodi eu boddhad. Mae'r diolch am hyn i bawb a gyfrannodd at lunio'r cynllun wrth gefn a rheoli'r wybodaeth a'r gefnogaeth.

#### 5. ARGYMHELLION

Yn achos heintiadau yn y dyfodol, yr her yw ail-wneud yr hyn a fu'n effeithiol a gwella lle bo modd. Yn hyn o beth, bu'r adborth a gafwyd gan y staff yn amhrisiadwy, ac argymhellir y camau isod

##### Cyfathrebu:

- Mae posteri wedi'u gwerthfawrogi; fodd bynnag, mae angen amrywio'r negeseuon ynglŷn a iechyd a newid y posteri o bryd i'w gilydd
- Dylai'r holl negeseuon e-bost i staff fod yn fyrrach ac yn gliriach

##### Trefniadau hylendid:

- Mae angen darparu gel dwylo yn gynt, a gwella cyflenwadau o sebon ac o gel dwylo, fel ei gilydd
- Byddai saff yn croesawu deunyddiau i lanhau eu hwynebau gwaith eu hunain

##### Polisiau a ffynonellau cyngor:

- Mae angen i reolwyr sicrhau bod staff sydd â symptomau ffliw yn y waith yn cymryd absenoldeb trwy salwch
- Mae angen cyfarwyddo rheolwyr ynglŷn â'r drefn i staff fod yn absennol mewn argyfwng i ofalu am aelodau o'r teulu

##### Adborth cyffredinol:

- Mae angen rhoi mwy o sylw i staff gofal a staff ategol sy'n gweithio ar safleoedd cangen

#### 6. DIOLCHIADAU

Hoffai'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr astudiaeth, yn enwedig y 280 o atebwyr a roddodd o'u hamser i lenwi'r holiadur ar-lein.

Joe Patton  
Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol, Chwefror 2010